4.214

YSGOLDY LLANGATHEN.

Yn ngwlad Ystrad Tywi, Llangathen sydd hardd,
Cartrefle prydferthwch, holl anian a chwardd ;
A ninau'r trigolion y'm lawen yn awr,
Wrth weled rhoi sylfaen teml addysg i lawr ;
Dysg, dysg, O hoff ddysg,
Dy freintiau digymhar geir mwy yn ein mysg.

Mae niwl anwybodaeth yn cilio o'r plwy',
I flino'r trigolion ni ddychwel byth mwy ;
Mae'r werin sy'n codi, o'i afael yn rhydd,
Yn fuan Llangathen yn Athen a fydd ;
Dysg, dysg, O hoff ddysg,
Dy freintiau digymhar geir mwy yn ein mysg.

Arglwyddi Dinefwr a Cawdor i chwi,
A'n ffyddlon Offeiriad, diolchgar y'm ni
A'r ddau Eglwys-warden, a llawer heb hyn,
Fe berchir eich enwau tra'r Grongaer yn fryn ;
Dysg, dysg, O hoff ddysg,
Dy freintiau digymhar geir mwy yn ein mysg.

Bwth y Bardd. GWYNIONYDD.

X205 220907